

# Astudiaeth Achos

## Lleoliadau Gwaith Myfyrwyr Prifysgol De Cymru yn Ysgol Gynradd Maes-y-coed

Bob blwyddyn, rydyn ni'n trefnu lleoliadau gwaith ar gyfer myfyrwyr Prifysgol De Cymru, ac mae'r rhan fwyaf o'r rheini mewn ysgolion cynradd. Cafodd tri myfyriwr leoliad gwaith yn Ysgol Gynradd Maes-y-coed, lle drefnon nhw wersi ymarfer corff, clwb ar ôl ysgol a chynllun gwaith iechyd a lles chwe wythnos o hyd.

Trefnodd y myfyrwyr wersi ymarfer corff Sgiliau Symud Sylfaenol (FMS) i blant Blwyddyn 1 a 2. Nod y gwersi oedd gwella llythrennedd corfforol drwy ddysgu Sgiliau Symud Sylfaenol mewn sesiynau hwyl â themâu sy'n cynnwys arwyr, y gofod, y gorllewin gwyllt, y syrcas a straeon tylwyth teg. Fe wnaeth y plant fwynhau'r sesiynau a mwynhau creadigrwydd y themâu. Roedd y sesiynau'n galluogi'r plant i ddatblygu sgiliau a magu hyder.

Roedd cynllun gwaith chwe wythnos y myfyrwyr yn canolbwyntio ar weithgarwch corfforol a bwyta'n iach. Fe wnaeth plant Blwyddyn 3 fwynhau cyfuniad o sesiynau gweithgarwch corfforol a gwersi yn y dosbarth. Defnyddiwyd plat 'Bwyta'n Dda' i ddysgu plant am fwyta'n iach, a chafodd sesiynau Sgiliau Symud Sylfaenol eu cynnal i wella llythrennedd corfforol a magu hyder. Cafodd cynllun gwaith y myfyrwyr ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd arall hefyd.

Fe wnaeth y myfyrwyr hefyd gynnal clwb ar ôl ysgol yn cynnwys nifer o chwaraeon gwahanol. Nod y clwb oedd rhoi cyfle i blant roi cynnig ar nifer o chwaraeon gwahanol, ac o ganlyniad, eu helpu i ddatblygu nifer o sgiliau newydd ac i ddod o hyd i gêm newydd maen nhw'n ei mwynhau ynghyd â magu'u hyder i fynd ati i gymryd rhan mewn chwaraeon. Y gobaith oedd byddai hyn yn eu hannog i gymryd rhan mewn clybiau eraill a mwynhau chwaraeon a gweithgareddau corfforol. Cyflwynodd y myfyrwyr bob sesiwn mewn ffordd oedd yn canolbwyntio ar fwynhad y plant. Daeth 14 o blant i gymryd rhan a magu hyder wrth i'r wythnosau fynd yn eu blaen.

**“ Dysgu am chwaraeon a sgiliau newydd oedd y rhan orau. Roeddwn bob tro'n teimlo'n rhan o'r sesiynau ac yn mwynhau cymryd rhan gyda fy ffrindiau. ”** Merch, 9 oed.

**“ Rydw i'n teimlo'n hapusach yn cymryd rhan mewn chwaraeon ac rydw i'n mwynhau gwersi ymarfer corff yn fwy nawr. Rydw i eisiau mynd y tymor nesaf. ”**

**Bachgen, 8 oed.**

